ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL RHANBARTHOL

Cyflwyniad

Llywodraethu corfforaethol yw'r system a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff gwaith rhanbarthol ei gyfarwyddo a'i reoli, ac sy'n cael eu defnyddio i adrodd i arweinwyr, llywodraethwyr ac athrawon ysgol, ymgysylltu â hwy a chynnig cymorth iddynt. Llywodraethu yw'r ffordd y mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y modd cywir, i'r bobl gywir, a hynny mewn modd amserol, cynhwysol, didwyll, gonest ac atebol.

Mae'r Cod hwn yn nodi safonau arfer da ac mae'n cael ei gefnogi gan bolisïau, systemau a gweithdrefnau priodol a gynlluniwyd i sicrhau llywodraethu corfforaethol cadarn. Mae'n cefnogi gweledigaeth y Rhanbarth am '*gael rhwydwaith o ysgolion sy'n perfformio'n uchel yn gyson ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol yn dda ac yn cynnig safonau addysgu uchel, gyda'r holl ddysgwyr yn cyrraedd eu llawn botensial*.' Mae'r Cod hwn yn amlinellu ymagwedd y Rhanbarth at lywodraethu corfforaethol, yn cefnogi ei weledigaeth ac yn arddangos yr ymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o unplygrwydd, didwylledd ac atebolrwydd.

Egwyddor graidd 1: Canolbwyntio ar ddiben y Rhanbarth ac ar y canlyniadau i'r gymuned ddysgu a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r rhanbarth

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn datblygu ac yn hyrwyddo diben a gweledigaeth ERW
- yn adolygu gweledigaeth ERW i'r rhanbarth yn rheolaidd, a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Rhanbarth
- yn sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar weledigaeth gyffredin o'u gwaith sy'n cael ei deall a'i chytuno gan bob partner
- yn cyhoeddi cyfrifon blynyddol mewn pryd i gyfleu gweithgareddau a chyflawniadau'r Rhanbarth, ei berfformiad a'i sefyllfa ariannol
- yn penderfynu sut y caiff ansawdd y gwasanaeth i ddefnyddwyr ei fesur a sicrhau bod yr wybodaeth sydd ei hangen i adolygu ansawdd gwasanaeth yn effeithiol ac yn rheolaidd ar gael
- yn gosod trefniadau effeithiol ar waith i nodi ac ymdrin â methiant o ran darparu gwasanaeth
- yn penderfynu sut y caiff gwerth am arian ei fesur ac yn sicrhau bod gan y Rhanbarth neu'r bartneriaeth yr wybodaeth sydd ei hangen i adolygu gwerth am arian a pherfformiad yn effeithiol

- yn sicrhau bod y Rhanbarth yn cadw fframwaith ariannol darbodus a bod cyngor ariannol amserol, cywir a diduedd yn cael ei roi i gynorthwyo'r broses o osod cyfeiriad a bodloni amcanion.

Egwyddor graidd 2: Bod Aelodau a Swyddogion yn cydweithio i gyrraedd nod cyffredin gyda swyddogaethau a rolau pendant

I gyflawni hyn byddwn:

- yn nodi datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau priodol y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol ar y cyd ac yn unigol; staff uwch rhanbarthol a sefydliadau partner
- yn nodi yng nghyfansoddiad y Rhanbarth y cyfrifoldeb am swyddogaethau rhwng y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol a chan gynnwys manylion y dirprwyaethau i Swyddogion, ac yn sicrhau y caiff ei fonitro a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn
- yn gwneud y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Cydbwyllgor am bob agwedd ar reoli gweithredol
- yn gwneud y Prif Swyddog Cyllid enwebedig yn gyfrifol i'r Cydbwyllgor am sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi ar bob mater ariannol a bod systemau, swyddogaethau a rheolaethau cyfrifyddu rheoli priodol ar waith, am gadw cyfrifon a chofnodion ariannol priodol, ac am gynnal system effeithiol o reoli ariannol mewnol
- yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n galluogi'r Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro i gael yn syth at y Rheolwr Gyfarwyddwr
- yn gwneud Uwch Swyddog (fel arfer y Swyddog Monitro neu Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol) yn gyfrifol i'r Cydbwyllgor am sicrhau bod gweithdrefnau cytunedig yn cael eu dilyn ac y cydymffurfir â phob statud, gorchymyn a rheoliad perthnasol
- yn datblygu protocolau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng Aelodau Etholedig, Staff a Rhanddeiliaid yn eu rolau priodol
- yn sicrhau strwythur effeithiol a phriodol ar gyfer rheoli'r broses o osod telerau ac amodau i Staff
- yn sicrhau bod mecanweithiau effeithiol yn bodoli i fonitro darpariaeth a pherfformiad gwasanaeth
- yn sicrhau bod gweledigaeth, cynlluniau strategol, blaenoriaethau a thargedau'r Rhanbarth yn cael eu datblygu drwy fecanweithiau cadarn, ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, a'u bod yn cael eu cyfleu a'u lledaenu'n glir
- yn parhau i ddatblygu proses gynllunio ariannol a busnes tymor canolig i gyflenwi amcanion strategol, sy'n destun adolygiad rheolaidd
- wrth weithio mewn partneriaeth:

    - yn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir a hynny'n unigol ac ar y cyd mewn perthynas â'r bartneriaeth a'r Rhanbarth

    - yn sicrhau bod statws cyfreithiol y bartneriaeth yn glir

    - yn sicrhau bod cynrychiolwyr neu sefydliadau ill dau'n deall graddau eu hawdurdod i rwymo eu sefydliad wrth benderfyniadau partner, a'u bod yn egluro hynny i bob partner arall.

Egwyddor graidd 3: hyrwyddo gwerthoedd i'r Rhanbarth ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod arweinyddiaeth y Rhanbarth yn gosod naws ar gyfer y sefydliad drwy greu hinsawdd o ddidwylledd, cefnogaeth a pharch
- yn sicrhau bod safonau ymddygiad personol a ddisgwylir gan staff a rhanddeiliaid, gan waith rhwng aelodau etholedig, staff a rhanddeiliaid a'r Rhanbarth, ei bartneriaid a'r gymuned, yn cael eu diffinio a'u cyfleu drwy godau ymddygiad a phrotocolau
- yn gosod trefniadau yn eu lle i sicrhau nad oes rhagfarn, tuedd na gwrthdaro buddiannau'n dylanwadu ar Staff a Rhanddeiliaid y Rhanbarth wrth ymdrin â gwahanol randdeiliaid ac yn gosod prosesau priodol yn eu lle i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n ymarferol
- yn datblygu ac yn cynnal gwerthoedd cyffredin gan gynnwys gwerthoedd arwain i'r sefydliad ac i'r cyflogeion gan adlewyrchu disgwyliadau cyhoeddus, a chyfleu'r rhain gyda'r staff, y partneriaid a'r rhanddeiliaid
- yn gosod trefniadau ar waith i sicrhau bod gweithdrefnau a gweithrediadau, gan gynnwys systemau a phrosesau ar gyfer gweinyddu ariannol a rheoli ariannol, yn cael eu cynllunio i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau moesegol priodol, ac yn monitro eu heffeithiolrwydd parhaus yn ymarferol
- yn datblygu ac yn cynnal Pwyllgor Safonau effeithiol
- yn defnyddio gwerthoedd cyffredin y sefydliad i fod yn ganllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn sail i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a dibynadwy â'r Rhanbarth
- wrth fynd ar drywydd y weledigaeth o weithio rhanbarthol, yn cytuno ar gyfres o werthoedd y gellir barnu penderfyniadau a chamau gweithredu mewn perthynas â hwy. Rhaid i werthoedd felly gael eu harddangos gan ymddygiad partneriaid yn unigol ac ar y cyd.

Egwyddor graidd 4: Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn datblygu ac yn cynnal swyddogaeth graffu effeithiol sy'n annog her adeiladol ac sy'n cryfhau perfformiad y Rhanbarth ar y cyfan ac yn sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael ei hadnoddu a'i chynnal
- yn datblygu ac yn cynnal mecanwaith agored, priodol ac effeithiol i ddogfennu'r sail am wneud penderfyniadau
- yn gosod trefniadau ar waith i ddiogelu rhag gwrthdaro buddiannau ar ran yr holl staff a gosod prosesau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n ymarferol
- yn datblygu ac yn cynnal pwyllgor llywodraethu effeithiol neu gorff cywerth sydd ar wahân i'r swyddogaethau gweithredol a chraffu (neu'n wneud trefniadau priodol eraill ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r fath bwyllgor) ac sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r Prif Swyddog Cyllid

- yn gosod yn eu lle drefniadau tryloyw a hygyrch effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion
- yn sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau boed i'r Rhanbarth neu i bartneriaeth yn cael gwybodaeth sy'n addas at ddiben - yn berthnasol, yn gywir, yn amserol ac yn rhoi esboniadau clir o faterion technegol ac ariannol a'u goblygiadau gan gynnwys gwybodaeth gyllidebol ac ariannol
- yn sicrhau bod cyngor proffesiynol priodol ar gael ar faterion sydd â goblygiadau cyfreithiol neu ariannol, a'i fod yn cael ei gofnodi ymhell cyn gwneud penderfyniadau a'i ddefnyddio'n briodol
- yn sicrhau bod rheoli risg yn cael ei wreiddio yn niwylliant y Rhanbarth, gyda staff a rhanddeiliaid ar bob lefel yn cydnabod bod rheoli risg yn rhan o'u swydd a bod trefniadau am reoli mewnol ac ariannol a rheoli risg yn cael sylw mewn adroddiadau llywodraethu
- yn sicrhau bod y Rhanbarth yn gosod rheolaethau ariannol mewnol effeithiol ar waith sy'n ymdrin â chanllawiau wedi'u codeiddio, systemau cyllidebol, goruchwyliaeth, adolygu a monitro rheolaeth, dulliau diogelu ffisegol, arwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau cyfrifyddu, systemau gwybodaeth a phrosesau awdurdodi a chymeradwyo
- yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer chwythu'r chwiban ar waith a'u bod ar gael i gyflogeion a phawb sy'n contractio gyda'r Rhanbarth neu'n cael ei benodi gan y Rhanbarth
- yn cydnabod yn weithgar y terfynau gweithgarwch cyfreithlon a osodwyd arnom, gan yr athrawiaeth *ultra vires* er enghraifft, ond hefyd yn ceisio defnyddio ein pwerau er budd llawn y gymuned addysgol
- yn cydnabod terfynau gweithredu cyfreithlon ac yn dilyn gofynion penodol deddfwriaeth a'r cyfrifoldebau cyffredinol a osodir ar y Rhanbarth gan gyfraith gyhoeddus
- yn dilyn yr holl ofynion deddfwriaethol penodol a osodwyd ar y Rhanbarth, yn ogystal â gofynion y gyfraith gyffredinol, ac yn benodol integreiddio egwyddorion allweddol cyfraith weinyddol dda – rhesymoledd, cyfreithlondeb a chyfiawnder naturiol yn eu gweithdrefnau a'u prosesau penderfynu

Egwyddor graidd 5: Datblygu gallu Staff a Rhanddeiliaid i fod yn effeithiol

I gyflawni hyn byddwn:

- yn darparu rhaglenni cynefino wedi'u teilwra i anghenion unigol a chyfleoedd i Aelodau a Swyddogion ddiweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd
- yn sicrhau bod gan ddeiliaid rôl allweddol y Rhanbarth y sgiliau, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i berfformio'n effeithiol yn eu rolau a bod y rolau hyn yn cael eu deall a'u cymhwyso'n briodol ledled y Rhanbarth
- yn datblygu sgiliau'n barhaus er mwyn cyflawni rolau'n effeithiol, ac er mwyn gwella perfformiad, gan gynnwys y gallu i graffu a herio a chydnabod pan fydd angen cyngor arbenigol allanol
- yn sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle wedi'u cynllunio i annog unigolion o bob rhan o'r gymuned i ymgysylltu â gwaith y Rhanbarth, cyfrannu ato a chyfranogi ynddo fel sy'n briodol
- yn sicrhau bod strwythurau gyrfa yn eu lle i annog datblygiad yn unigol ac ar y cyd

Egwyddor graidd 6: Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn

I gyflawni hyn byddwn::

- yn egluro inni'n hunain, i'r holl staff a'r rhanddeiliaid, bwy sy'n atebol am beth
- yn ystyried y rhanddeiliaid sefydliadol hynny y maent yn atebol iddynt ac yn asesu effeithiolrwydd y perthnasoedd ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol
- yn cynhyrchu rhaglenni gwaith wedi'u hadolygu'n rheolaidd i gefnogi gweithgarwch y swyddogaeth graffu ffurfiol
- yn sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir ar waith gyda'r holl staff a rhanddeiliaid gan gynnwys trefniadau monitro ac yn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol
- yn sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r Rhanbarth i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn effeithiol gan gydnabod y gall fod gwahanol flaenoriaethau gan wahanol randdeiliaid
- yn sefydlu polisi clir ar y mathau o faterion y byddant yn ymgynghori'n ystyrlon arnynt neu'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn eu cylch gan gynnwys mecanwaith adborth i'r ymgyngoreion hynny arddangos beth sydd wedi newid o ganlyniad
- yn flynyddol, yn cyhoeddi cynllun perfformiad priodol sy'n rhoi gwybod am weledigaeth, strategaeth, cynlluniau a datganiadau ariannol y Rhanbarth yn ogystal â gwybodaeth am ei ganlyniadau, ei gyflawniadau a boddhad defnyddwyr gwasanaeth yn y cyfnod blaenorol
- yn sicrhau bod y Rhanbarth cyfan yn agored ac yn hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a staff ac yn sicrhau ei fod wedi ymrwymo i ddidwylledd a thryloywder yn ei holl drafodion, gan gynnwys partneriaethau a hynny'n amodol yn unig ar yr angen i gadw cyfrinachedd yn yr amgylchiadau penodol hynny pan fydd yn briodol gwneud hynny
- yn datblygu ac yn cynnal polisi clir ar y ffordd y caiff staff a'u cynrychiolwyr eu holi a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau

Monitro, Adolygu ac Adrodd

Bydd y Rhanbarth yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'i drefniadau llywodraethu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod ac yn llywodraethu'n dda drwy fframweithiau arfer gorau priodol. Diben yr adolygiadau fydd sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn ddigonol, yn cydymffurfio, ac yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol, a nodi bylchau ac unrhyw gamau sy'n ofynnol i sicrhau llywodraethu effeithiol i'r dyfodol.

Bydd adolygiad blynyddol a fydd yn dwyn Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n ymgorffori datganiadau am y system rheoli mewnol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor i'w gytuno. Bydd yn cael ei gyhoeddi wedyn gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

Derbynnir y dylai cymeradwyaeth a pherchenogaeth ar y Datganiad Llywodraethu fod ar lefel gorfforaethol a dylid ei gadarnhau drwy'r Rheolwr Gyfarwyddwr a pherson arwain o bob un o Awdurdodau Lleol y Rhanbarth yn llofnodi'r datganiad ar y cyd ar ran y Rhanbarth. Y Cydbwyllgor yw'r cyfrwng a fydd yn cadarnhau'r datganiad ar ran y chwe awdurdod lleol.

Bydd y Rhanbarth yn ymdrechu i sefydlu fframwaith llywodraethu, wedi'i wreiddio yn ei brosesau busnes, sy'n cysylltu amcanion strategol â risgiau, rheolaethau a sicrwydd.

Disgwylir i'r egwyddorion a nodir yn y Cod hwn gael eu cynnal gan randdeiliaid, partneriaid a staff y Rhanbarth. Dylid felly cyfathrebu'n effeithiol y Cod hwn a'r amrywiaeth o bolisïau, systemau a phrosesau sy'n rhan o'r fframwaith llywodraethu.

Chwefror 2015